Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Merton Place**

**8 Pwllycrochan Avenue**
**Bae Colwyn**
**LL29 7BU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/01/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Merton Place

| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
|---|---|
| Darparwr Cofrestredig | ClwydAlyn Housing Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19/6/2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r bobl yn hapus iawn ag ansawdd y gofal y maent yn ei gael ac yn canmol y staff sy'n darparu gofal a chymorth iddynt. Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac eisiau'r gorau i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff gweithgareddau eu cynnal yn rheolaidd ac yn gyson i sicrhau y caiff anghenion corfforol a llesiant emosiynol y bobl eu diwallu. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio eu cynlluniau gofal er mwyn i'r cymorth gael ei roi yn y ffordd sydd ei hangen arnynt ac y maent yn ei ffafrio. Mae'r ddogfennaeth gofal yn drwyadl a chadarn a chaiff pobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd eu hangen arnynt.

Caiff y gwasanaeth ei reoli'n dda ac mae'r rheolwr, y dirprwy a'r staff gofal yn parchu'r bobl, maent yn garedig ac yn hawdd mynd atynt. Mae dogfennaeth gofal a systemau sicrhau ansawdd y cartref yn cadarnhau bod y bobl yn cael gofal o safon dda mewn ffordd sydd ei hangen arnynt ac mae'r holl staff a'r tîm rheoli yn ymdrechu i sicrhau y caiff gwasanaeth da ei ddarparu. Darperir hyfforddiant i gefnogi datblygiad y staff gofal a'u helpu i gyflawni eu gwaith yn ddiogel. Mae'r prosesau recriwtio yn gadarn. Mae'r cartref mewn cyflwr da ac yn ddiogel gyda digon o le ac mae gwelliannau a buddsoddiadau yn mynd rhagddynt.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran y gofal a'r cymorth a gânt yn y cartref. Cynigir y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg i'r bobl ac mae digon o arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r cartref. Gall Datganiad o Ddiben y cartref fod ar gael yn Gymraeg ar gais. Ceir ceginau bach ar bob llawr a gall y bobl helpu eu hunain i'r ffrwythau ffres, byrbrydau a'r diodydd. Mae'r bobl yn edrych yn hapus a dywedwyd wrthym eu bod yn gyfforddus ac yn fodlon eu byd yng nghwmni'r staff ac mae'r cymorth a'r gofal a gânt yn rhoi hwb iddynt. Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu â'r bobl mewn ffyrdd roeddent yn eu deall. Mae'r bobl yn dewis sut i dreulio eu diwrnod a chyflawni eu harferion dyddiol.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan y staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol yn brydlon cyn gynted ag y bo angen. Caiff y cynlluniau personol eu llunio gyda'r bobl a'u perthnasau er mwyn i ddyheadau a dewisiadau penodol gael eu nodi'n gywir. Caiff dull tîm amlddisgyblaethol ei roi ar waith a gofynnir am gyngor ac arweiniad yn brydlon pan fo angen i sicrhau y caiff anghenion y bobl eu hadolygu a'u diwallu'n effeithiol. Mae amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu darparu i sicrhau y gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyfforddiant ar gael i'r staff gofal a chaiff eu gwybodaeth a'u cymhwysedd eu gwirio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ac mae'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn help i lywio arferion y staff. Mae'r broses recriwtio staff yn ddiogel sy'n helpu i sicrhau bod y staff a gyflogir yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Mae mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn y bobl rhag ymwelwyr diawdurdod a chaiff gwiriadau amgylcheddol eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r staff gofal yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a'r camau cywir y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau y caiff unrhyw benderfyniadau sy'n cyfyngu ar ryddid person eu gwneud er budd gorau'r person yn unig, gan ystyried y teulu ac asiantaethau eraill yn llawn.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae digon o lolfeydd er mwyn sicrhau y gall y bobl ddewis lle maent am dreulio eu diwrnod. Mae'r dodrefn yn gyfforddus ac o ansawdd da. Mae'r ystafelloedd wedi'u personoli ag eitemau personol pob unigolyn, lluniau ac eitemau eraill y maent yn eu mwynhau. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn gartrefol ac mae gwaith cynnal a chadw'n cael ei gwblhau i sicrhau bod pobl yn byw mewn amgylchedd a gynhelir yn dda. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu a'i gynnal i sicrhau eu bod yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal yn y ffordd a ddymunant. Llunnir y cynlluniau gofal â nhw neu eu cynrychiolwyr. Cyn i'r unigolyn gael ei dderbyn i'r gwasanaeth, caiff asesiadau cyn derbyn eu cwblhau a chesglir yr holl waith papur angenrheidiol gan wasanaethau eraill megis iechyd, gwasanaethau arbenigol neu ofal awdurdod lleol. Mae'r cofnodion gofal yn gynhwysfawr, yn gyfredol a pherthnasol. Mae'r staff yn adolygu'r cynlluniau personol yn fisol a chaiff unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r unigolyn eu cofnodi a'u diweddaru yn y cynlluniau er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r cartref wedi

ymrestru yn y rhaglen ‘Gwên am Byth’ sy'n bwriadu gwella hylendid y geg a gofal y geg i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Nid oedd yn rhaid i'r bobl aros i gael cymorth. Gwelsom y staff yn mynd at y bobl ac yn siarad â nhw, gan ofyn iddynt beth roeddent ei eisiau cyn iddynt orfod gofyn amdano. Ceir dogfen *"This is Me"* yn y ffeiliau gofal sy'n cynnwys manylion hoff bethau, cas bethau, arferion a'r hyn sy'n bwysig i'r bobl. Mae niferoedd priodol o staff ar ddyletswydd i alluogi'r bobl i gael y gofal sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Gwelsom rai o'r staff gofal yn siarad Cymraeg â rhai o'r bobl wrth roi gofal, tawelwch meddwl a dewis. Nid yw'r bobl yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth am gyfnodau hir o amser ac mae'r staff gofal yn treulio amser ystyrlon gyda'r bobl ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau gan eglwysi lleol, sesiynau cerddoriaeth gyda diddanwyr, bingo, prynhawniau harddwch, sesiynau gwneud coctel ac ymweliad gan yr ysgolion lleol dros gyfnod y Nadolig lle gwnaed cardiau Nadolig, a gwnaeth y bobl fwynhau digwyddiadau blasu bwydydd.

Dilynir arferion diogel mewn perthynas â rheoli a rhoi meddyginiaeth. Cawsom gyfle i edrych ar sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth, a gwelsom eu bod yn cynnwys lluniau o'r bobl ac unrhyw alergeddau a oedd ganddynt. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd mewn modd amserol a chaiff y bobl sy'n cael meddyginiaeth wrthseicotig eu hadolygu'n rheolaidd. Cynghorir y gwasanaeth i gofnodi unrhyw sgîl-effeithiau o'r feddyginiaeth hyn yng nghynllun meddyginiaeth personol y bobl er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol o'r arwyddion. Caiff y feddyginiaeth ei storio'n ddiogel a chaiff archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod meddyginiaeth y bobl yn cael ei gweinyddu'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ac yn cael eu barnu'n gymwys cyn rheoli a gweinyddu meddyginiaeth.

Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn ddarostyngedig i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn a chaiff penderfyniadau ynglŷn â'u gofal, cymorth a'u diogelwch eu gwneud er eu budd gorau. Gall y bobl gael gafael ar wasanaeth eirioli os oes angen ac mae gwybodaeth a manylion cyswllt i'w gweld yn y cartref. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn hyderus wrth roi gwybod am arferion gwael ac unrhyw bryderon diogelu i'r rheolwr. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel. Mae gan y gwasanaeth lyfr ymwelwyr sy'n cael ei gwblhau yn unol â threfniadau diogelwch tân a chynhelir archwiliadau o hunaniaeth ymwelwyr. Mae dogfennaeth diogelwch tân ar waith, sy'n cynnwys cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae dogfennaeth iechyd a diogelwch gyfredol, yn cynnwys tystysgrifau tân a diogelwch trydanol, dogfennaeth tymheredd dŵr a'r risg o legionela, profion ar ddyfeisiau cludadwy (PAT) ac asesiadau risg tân ar waith. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant i wella diogelwch. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd, diogelwch tân, iechyd a diogelwch a symud a chodi a chario er mwyn eu cefnogi yn eu rôl. Mae gwaith adfer helaeth i fod i ddechrau er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn bodloni'r safonau diogelwch tân cyfredol.

Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau misol o'r amgylchedd ac mae amserlenni glanhau ar waith i sicrhau y caiff yr holl ardaloedd a'r cyfarpar eu glanhau a bod y tîm cynnal a chadw'n

cael gwybod am unrhyw ardal sydd angen sylw er mwyn iddynt weithredu. Gwelsom fod eitemau a allai fod yn beryglus, megis cynnyrch glanhau ac unrhyw eitemau a allai achosi perygl yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo. Caiff cyfarpar ei storio mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y bobl yn aml, gan sicrhau nad oes rhwystrau ar y coridorau. Mae angen rhoi sylw i'r gwaith o lanhau'r carpedi ym mhrif goridorau'r cartref gan eu bod wedi treulio ac wedi'u staenio. Mae'r darparwr yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd.

Mae digon o ardaloedd mewnol ac allanol a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol sy'n darparu llety o ansawdd da. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd a'u bod yn teimlo bod ganddynt yr hyn sydd eu hangen arnynt. Mae arwyddion dwyieithog clir a phriodol o amgylch y cartref sy'n helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y cartref yn annibynnol. Gall y bobl symud o amgylch y cartref yn rhydd a diogel gan fod digon o ganllawiau cydio. Mae ystafell wlyb yn ystafelloedd y bobl ac maent yn gyfforddus, cartrefol, glân a chynnes ac mae'r bobl yn cael eu hannog i addurno eu hystafelloedd gydag eitemau personol sy'n bwysig iddynt, megis ffotograffau ac addurniadau. Mae gardd gaeedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ar lawr gwaelod y cartref gyda digon o ardaloedd i eistedd ac mae cysgodlenni ar gael pan fydd y tywydd yn braf. Mae cafnau plannu ar uchder cadeiriau olwyn ar gael i'r bobl blannu blodau neu lysiau. Mae ardal awyr agored fach ar y llawr cyntaf a'r ail lawr. Mae lolfeydd a cheginau bach o wahanol faint ar bob llawr er mwyn i'r bobl ddod at ei gilydd i gymdeithasu, neu i fod ar eu pen eu hunain fel y dymunant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael gofal o ansawdd uchel gan wasanaeth sy'n gosod targedau uchel iddo'i hun, sy'n ymrwymedig i sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Gellir cael gafael ar yr Unigolyn Cyfrifol ac mae'n monitro perfformiad y gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan reoliad. Mae'r bobl a'u perthnasau/cynrychiolwyr yn gwybod sut i godi unrhyw bryderon ac maent yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny pe baent yn codi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gwneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n effeithio arnynt, a bod ganddynt reolaeth drostynt. Fel rhan o'r mesurau sicrhau ansawdd, gofynnir i'r bobl am eu barn ac mae'r cofnodion yn dangos eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o wasanaeth sy'n dilyn proses recriwtio gadarn ac sy'n sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn cael cyfleoedd hyfforddi. Edrychom ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol, megis geirdaon, tystiolaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwblhawyd ar gyfer yr holl staff, dyddiadau ac awdurdodiadau a chynigion cyflogaeth, wedi'u cynnwys ynddynt. Mae cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos eu bod wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant ar-lein sy'n berthnasol i'w rolau, fel rheoli achosion o gwympo, codi a chario, diabetes, hyfywedd meinwe a maeth a hydradu. Dywedodd y staff wrthym fod gan y tîm rheoli agwedd gadarnhaol at hyfforddiant. Mae rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn chwe cham sy'n ymwneud â gofal diwedd oes da.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff yn cael eu gwerthfawrogi, a'u cefnogi ac y rhoddir cyfarwyddyd clir iddynt. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd sy'n canolbwyntio ar lesiant y preswylwyr. Gwelsom gofnodion ac agendâu a gadarnhaodd y gallai'r staff gyfrannu at yr agenda. Caiff y staff gofal gyfarfodydd goruchwylio un i un rheolaidd i gefnogi ac i drafod eu hanghenion datblygu a'u hymarfer. Mae angen cynnal arfarniadau staff blynyddol ac mae cynlluniau ar waith i'w cwblhau'n fuan. Mae'r tîm rheoli'n bresennol yn y gwasanaeth o ddydd i ddydd a chadarnhaodd y staff gofal eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi a'u bod yn mwynhau eu gwaith. Cadarnhaodd y staff fod drws y rheolwr bob amser yn agored a'i bod yn hawdd mynd at y tîm rheoli.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol ac yn buddsoddi yn y gwasanaeth. Nid yw'r darparwr wedi datgan unrhyw bryderon ariannol. Gwelsom ddigonedd o fwyd a chynnyrch ffres. Cadarnhaodd y tîm rheoli y caiff unrhyw gyfarpar sydd ei angen ei brynu heb oedi. Gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
ad terfynol heb ei
hoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi